**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: MA/LN/2715/25

Peredur Owen Griffiths AS
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Peredur.OwenGriffiths@senedd.wales

17 Tachwedd 2025

Annwyl Peredur,

Diolch am rannu adroddiad terfynol y Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'i adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Gweler fy ymateb i argymhelliad y pwyllgor ynghlwm.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

| **Argymhelliad** | **Derbyn/Derbyn mewn egwyddor/Gwrthod** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
| --- | --- | --- |
| Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall goblygiadau ymarferol ehangu awdurdodaeth yr Ombwdsmon i gwmpasu cwynion yn ymwneud ag ysgolion, ac yn rhannu'r canfyddiadau hyn erbyn hydref 2026. | **Derbyn** | Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i archwilio goblygiadau ymarferol ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon i gynnwys cwynion yn ymwneud ag ysgolion, ac i rannu'r canfyddiadau hyn erbyn hydref 2026.<br><br>Mae materion polisi, cyfreithiol ac ymarferol i'w hystyried, yn enwedig yr effaith ar gyrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid ac awdurdodau lleol yn sgil unrhyw newidiadau i'w prosesau a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau. |